Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth Adolygiad o Laddiadau Domestig

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

**1. A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?**

- Unigolyn
- **Sefydliad**

[os Unigolyn ewch i C2, os Sefydliad ewch i C3]

**3. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich cysylltiad orau.**

- Asiantaeth gorfodi'r gyfraith (yr heddlu, corff plismona, Gwasanaeth Erlyn y Goron)
- Sefydliad gofal iechyd
- Awdurdod Lleol
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Sefydliad addysgol neu gorff myfyrwyr
- Darparwr gwasanaeth/ elusen trais yn erbyn menywod a genethod
- **Arall (Rhowch fanylion)**

Wales Safer Communities Network (members from Local Authority, Police, Probation, Fire Service and Third Sector)

## Cynnal Adolygiad o Laddiadau Domestig

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Adolygiadau o Laddiadau Domestig yn golygu y gellir eu comisiynu mewn achosion lle'r oedd y dioddefwr a'r troseddwr yn byw yn yr un cartref, nad yw'n gwella ein dealltwriaeth o gam-drin domestig na'r ffyrdd o'i atal.

**4. Ydych chi o blaid diweddaru'r ddeddfwriaeth Adolygiadau o Laddiadau Domestig fel eu bod yn cael eu comisiynu ar gyfer pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, yn unol â'r diffiniad o gam-drin domestig yn y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 (gweler isod)?**

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Ehangodd Deddf Cam-drin Domestig 2021 y diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig, ac felly credwn y byddai'n briodol i'r diffiniad gael ei ddiweddaru yn neddfwriaeth Adolygiad

Dynladdiad Domestig. Gallai hyn gynyddu nifer yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal neu sydd angen eu cynnal, ac mae angen ystyried adnoddau neu adnoddau cynyddol a'r prinder presennol o adolygwyr o ansawdd da wrth symud ymlaen.

**Mae Adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn diffinio cam-drin domestig fel:**

(2)Mae ymddygiad person (“A”) tuag at berson arall (“B”) yn “gam-drin domestig” os—

(a)yw A a B yn 16 oed neu hŷn ac â chysylltiad personol â’i gilydd, a

(b)mae’r ymddygiad yn gamdriniol.

(3)Mae ymddygiad yn “gamdriniol” os yw’n cynnwys unrhyw un o’r canlynol—

(a)camdriniaeth gorfforol neu rywiol;

(b)ymddygiad treisgar neu fygythiol;

(c)ymddygiad sy’n rheoli neu’n gorfodi;

(d)camdriniaeth economaidd (gweler is-adran (4));

(e)camdriniaeth seicolegol, emosiynol neu arall;

ac nid yw’n gwneud gwahaniaeth a yw’r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu ymddygiad.

(4)Ystyr “camdriniaeth economaidd” yw unrhyw ymddygiad sy’n cael effaith niweidiol sylweddol ar allu B i wneud y canlynol—

(a)cael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu

(b)cael nwyddau neu wasanaethau.

(5)At ddibenion y Ddeddf hon gall ymddygiad A fod yn ymddygiad “tuag at” B er ei fod yn cynnwys ymddygiad a gyfeirir at berson arall (er enghraifft, plentyn B).

(6)Rhaid i gyfeiriadau yn y Ddeddf hon at ymddygiad camdriniol tuag at rywun arall gael eu darllen yn unol â’r adran hon.

(7)Am ystyr “cysylltiad personol”, gweler adran 2.

**Mae Adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn diffinio “cysylltiad personol” fel:**

(1)At ddibenion y Ddeddf hon, mae dau berson â “chysylltiad personol” â’i gilydd os yw unrhyw un o’r canlynol yn berthnasol—

(a)maent yn briod, neu wedi bod yn briod;

(b)maent yn bartneriaid sifil, neu wedi bod yn bartneriaid sifil;

(c)maent wedi cytuno i briodi (p’un a yw’r cytundeb wedi’i derfynu ai peidio);

(d)maent wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (p’un a yw’r cytundeb wedi’i derfynu ai peidio);

(e)maent mewn perthynas bersonol agos, neu maent wedi bod mewn perthynas bersonol agos â’i gilydd;

(f)mae ganddynt, neu roedd adeg pryd roedd ganddynt, berthynas rhiant yn gysylltiedig â’r un plentyn (gweler is-adran (2));

(g)maent yn perthyn.

(2)At ddibenion is-adran (1)(f) mae gan berson berthynas rhiant yn gysylltiedig â phlentyn os—

(a)yw’r person yn rhiant y plentyn, neu

(b)mae gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(3)Yn yr adran hon—

mae “plentyn” yn golygu person o dan 18 oed;

mae “cytundeb partneriaeth sifil” yn meddu ar yr ystyr a roddir yn adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;

mae gan “gyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr â’r un yn y Ddeddf Plant 1989 (gweler adran 3 o’r Ddeddf honno);

mae “perthyn” yn meddu ar yr ystyr a roddir yn adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

## Confensiwn enwi ar gyfer Adolygiadau o Laddiadau Domestig

Gall yr enw ‘Adolygiad o Laddiadau Domestig’ fod yn gamarweiniol pan nad yw’r farwolaeth yn yr adolygiad wedi’i dyfarnu’n lladdiad (e.e. hunanladdiad a marwolaeth heb esboniad).

**5. Ydych chi o blaid ailenwi ‘Adolygiadau o Laddiadau Domestig’? –**

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Ydym, rydym yn cytuno â'r egwyddor o newid enw Adolygiad Dynladdiad Domestig i Adolygiad o Farwolaethau Cam-drin Domestig. Wrth wneud hyn, mae'r Rhwydwaith yn teimlo y bydd yn dileu unrhyw amwysedd a all ddigwydd. Er enghraifft, pan gaiff unigolyn ei glirio o honiadau o laddiad drwy'r system cyfiawnder troseddol; neu os bydd materion ehangach ochr yn ochr â cham-drin domestig lle mae problemau o ran perthynas yn chwalu ac iechyd meddwl. Bydd yr adolygiadau hyn yn arwain at ddysgu gwahanol sy'n ehangach eu cyrhaeddiad ac nid yn gyfyngedig i'r gwasanaethau a chysylltiadau cam-drin domestig yn unig. Mae’r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sy’n cael ei gyflwyno yng Nghymru hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth sy’n hyrwyddo’r cysylltiadau hyn ymhellach, yn ogystal â’r cyfleoedd ar gyfer dysgu ehangach lle gallai fod elfen o gam-drin domestig.

**6. Os ydych chi o blaid ailenwi ‘Adolygiadau o Laddiadau Domestig’, a ddylai’r Llywodraeth:**

**- Cyflwyno’r term ‘Adolygiad o Farwolaethau yn Gysylltiedig â Cham-drin Domestig’ ar gyfer achosion o farwolaethau yn gysylltiedig â cham-drin domestig nad ydynt yn lladdiadau, gan gadw’r term ‘Adolygiad o Laddiadau Domestig’ ar gyfer lladdiadau domestig.**

**- Ail-enwi’r holl ‘Adolygiadau o Laddiadau Domestig’ yn ‘Adolygiadau o Farwolaethau yn Gysylltiedig â Cham-drin Domestig’**

**- Defnyddio term (neu dermau) arall i adlewyrchu’r ystod o farwolaethau sy’n dod o fewn cwmpas Adolygiad o Laddiadau Domestig (rhowch fanylion) yn well**

Rydym wedi nodi nifer o ymatebion gan fod amrywiaeth barn yn y gweithdy ymgynghori a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cymunedau mwy Diogel Cymru gydag arweinwyr diogelwch cymunedol yng Nghymru. Un farn oedd y dylai pob adolygiad sy’n ymwneud â cham-drin domestig rannu’r un enw, er mwyn bod yn symlach i bobl ei ddeall ac am y rhesymau a roddwyd i gwestiwn 5 dros beidio â bod angen newid enw hanner ffordd drwodd. Y farn arall oedd cadw’r gair lladdiad ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â dynladdiad, oherwydd bod ymdeimlad bod rhywbeth gwahanol a chryfach am y term lladdiad. Barn pawb oedd yn bresennol oedd mai enw’r Adolygiad yw’r elfen leiaf pwysig yn y broses, a bod angen edrych ar yr holl broses. Ni fydd newid enw yn datrys problemau o ran adnoddau a chapasiti; prinder cadeiryddion ac adolygwyr; ansawdd y cadeiryddion a'r adolygwyr hynny; oedi yn y broses

oherwydd amserlenni'r Panel Sicrhau Ansawdd; a sut i gyfyngu ar deuluoedd, ffrindiau ac unrhyw rai eraill arwyddocaol yn ail-brofi trawma.